PDF-XCHANGE Click to buy NOW! www.docu-track.com

yn cyfuno i'w gyfraniadau i'r eglwys fod yn Gynllun Rhodd Cymorth. Bydd yr eglwys wedyn yn hawlio 20c am bob £1 y mae'r aelod yn ei gyfrannu. Bydd modd i ni hawlio arian ar gyfer y 6 mlynedd ddiwethaf.

Bydd y ffurflenni i'w cael yn fuan gan Miss Marian Jones, Minallt, Dinorwig. Diolch yn fawr iawn iddi am ofalu am y gwaith hwn a fydd yn help i ni yn ariannol.

## Cyhoeddiadau

**CEFNYWAUN AC EBENESER**

**Nos Iau, Medi 10:** Pwyllgor Ysgol Sul am 7.30 o'r gloch.
**Dydd Sul, Medi 13:** Cynhelir oedfa dan arweiniad aelodau'r ddwy eglwys am 5.00 o'r gloch.

**CAPEL COCH A NANT PADARN**

**Dydd Mawrth, Medi 8:** Bore Coffi rhwng 10.45 a 12.00 o'r gloch er budd Cronfa Adnoddau'r capel.
**Nos Fercher, Medi 9:** Pwyllgor Adeiladau ar gyfer cynrychiolwyr Capel Coch a Nant Padarn am 7.00 o'r gloch.
**Dydd Sul, Medi 13:** Gwasanaethir am 10.00 a 5.30 o'r gloch gan y Gweinidog. gweinyddir y Cymundeb yn ystod oedfa'r bore. Bydd yr Ysgol Sul yn ail ddechrau am 11.15 o'r gloch.

**REHOBOTH**

**Dydd Sul, Medi 13:** Gwasanaethir am 2.00 o'r gloch gan y Gweinidog.

Noson Adnoddau a Llyfrau Cristnogol
**dan nawdd**
**y Cyngor Ysgolion Sul**

Gwerslyfrau, pecynnau crefft, llyfrau stori,
llyfrau lliwio a sticeri, cardiau Nadolig,
a llawer mwy

Llyfrau gweddi a gwasanaethau, esboniadau ac ati

Gostyngiadau o 10% trwy dalu ar y noson

**Nos Fawrth, Medi 15, yn Salem, Caernarfon**
**neu nos Fercher, Medi 16 yn Rhos y Gad, Llanfairpwll**

**Dowch unrhyw bryd rhwng 7.00 a 8.30 o'r gloch**
**Mynediad am ddim**

# Gronyn

**Taflen wythnosol Gofalaeth Deiniolen, Llanberis a Nant Peris**
**Rhif 374 - Dydd Sul, 06 Medi 2009**

## Cymhelliad

Mae'r meri go rownd ar gychwyn. Daeth y gwyliau i ben; mae'r haf ar ddarfod; mae'r ysgolion wedi ail agor; ac amrywiol gyfarfodydd y gaeaf yn galw unwaith eto. O'n blaen mae pob math o alwadau: tasgau i'w cyflawni, trefniadau i'w gwneud, cyfarfodydd i'w cynnal a dyddiadau i'w cofio. O fewn ein heglwysi, mae gwaith mawr yn ein haros dros fisoedd yr hydref a'r gaeaf. A diolch amdano. Ar ddechrau mis Medi arall, diolch fod y dystiolaeth Gristnogol yn dal yn fyw yn y rhan hon o'r byd, a bod i ninnau gyfle o hyd i wasanaethu'r Arglwydd Iesu Grist o fewn a thrwy ei Eglwys.

Beth fydd yn cymell y prysurdeb dros yr wythnosau nesaf hyn? Sawl peth, mae'n debyg, yw'r ateb. Arferiad neu draddodiad yn sicr i ddechrau. Mae llawer o'r pethau a wnawn yn arferiad blynyddoedd, os nad oes gyfan. Ac mae'n rhaid edmygu'r ymroddiad a'r ffyddlondeb a welir yng ngwaith yr eglwysi o hyd, er gwaetha'r holl gwyno a wnawn yn aml am gyflwr Achos Iesu Grist yn ein plith. Mae llawer i'w ddweud dros ddal ati yn ffyddlon o wythnos i wythnos ac o flwyddyn i flwyddyn.

Cymhelliad arall fydd yr ymdeimlad o ddyletswydd i wneud ein rhan dros y pethau a ystyriwn ni sy'n bwysig a gwerthfawr. Ac os byw ac iach, fe gyflawnir llawer dros y misoedd nesaf gan bobl sy'n credu'n gryf mai eu dyletswydd yw mynychu oedfa a gwneud popeth a allant dros Iesu Grist. A diolch am hynny.

Mewn ffordd ryfedd, bydd y gwaith ei hun yn gymhelliad arall. Mae i waith yr eglwys, fel unrhyw waith am wn i, ei fomentwm ei hun ar brydiau. Mae gweld rhywbeth sydd angen ei wneud yn ddigon i'n cymell i wneud ein rhan. Caiff cymaint o waith arferol yr eglwysi ei wneud gan bobl sy'n gweld y gwaith ac yn mynd ati i'w wneud, yn aml iawn yn dawel bach.

Diolch am bopeth sy'n ein cymell i ymgysegru i waith yr Arglwydd. Ond dros y misoedd nesaf, boed i Dduw roi i ni gymhelliad arall eto i'w wasanaethu Ef a'i Achos Mawr: awydd angerddol i weld ei waith yn llwyddo a'i enw'n cael ei fawrygu. Yn y cyfan a wnawn, boed i ni gael ein sbarduno gan hiraeth dwfn am weld Iesu Grist yn cael ei le yn ein bywydau ni ac ym mywydau pobl o'n cwmpas. Gwaith Duw ei hun ydyw, a gogoniant Duw sy'n bwysig yn y cyfan. Rydym yma i'w fawrygu; a boed i Dduw, felly, roi dymuniad diffuant i ni i weld ei Enw ef yn cael ei anrhydeddu yn ein haddoliad a'n gwasanaeth. Yn ein holl weithgar-wch, boed i'r Duw sy#n ein caru a'n cynnal gael y clod a'r anrhydedd i gyd.

PDF-XCHANGE Click to buy NOW! www.docu-track.com

**Gofalaeth Unedig**
**Deiniolen, Llanberis a Nant Peris**

Cefnywaun (P), Deiniolen
Ebeneser (A), Deiniolen
Capel Coch (P), Llanberis
Nant Padarn A), Llanberis
Rehoboth (P), Nant Peris

Gweinidog: Y Parchg John Pritchard
Cilfynydd, Llanberis, Gwynedd
Ffôn: 01286 872390
e-bost: john.cilfynydd@btinternet.com

**Gwefan yr Ofalaeth: gronyn.org**

# Heddiw

Croeso i bawb ohonoch i oedfaon Sul cyntaf mis Medi ac i rifyn cyntaf Gronyn wedi'r gwyliau. Boed i Dduw fendithio'r addoliad y ceisiwn ei roi iddo heddiw.

Gwasanaethir yn Capel Coch am 10.00 a 5.30 o'r gloch gan Mr Norman Closs Parry, Y Fachwen. Cynhelir Pwyllgor ar gyfer athrawon yr Ysgol Sul am 11.15 o'r gloch.

Byddaf fi'n arwain y ddwy oedfa yn Neiniolen am 10.00 a 5.00 o'r gloch.

Nid oes oedfa yn Rehoboth.

# Cofion

Anfonwn ein cofion at Mrs Vivien Thomas, 89 Maes Padarn, Llanberis sydd yn Ysbyty Gwynedd. Dymuniadau gorau hefyd i Mrs Doris Owen, Pentre Helen, Deiniolen; Mrs Margaret Jones, Hafan Porth y Gogledd, Deinioln; Mrs Elisabeth Griffith, 15 Ffordd Deiniol, Deiniolen; a Mr Bert Parry, Sycharth, Llanberis a fu yn yr ysbyty yn ystod mis Awst.

# Angladd

Bu farw Mrs Alice Searell Jones, Gwynant, 4 Nant Ffynnon, Nant Peris, ddydd Sadwrn, Awst 8, yng Nghartref Cerrig yr Afon, Y Felinheli, yn 88 mlwydd oed. Cynhaliwyd ei hangladd ddydd Iau, Awst 13 dan arweiniad y Gweinidog. Wedi gwasanaeth i'r teulu yn ei chartref, cafwyd oedfa gyhoeddus yng nghapel Rehoboth lle cymerwyd rhan hefyd gan y Parchgn Geraint Roberts, Porthaethwy a Christopher Prew, Llangefni. Mrs Falmai Pritchard oedd yr organyddes. Cymerwyd rhan ym Mynwent Nant Peris gan y Parchg R. O Jones, Melin y Coed.

Gwnaeth Mrs Alice Searell Jones ei chartref yn y Nant wedi iddi briodi, ac yma y magodd ei theulu ac yr arhosodd weddill ei hoes. Bu'n ffyddlon iawn i'r oedfaon yn Rehoboth lle bu'n weithgar fel athrawes Ysgol Sul. Bu'n gyfrifol gyda'i diweddar briod, Mr Gwilym Searell Jones, am gyhoeddiadau'r Sul am flynyddoedd. Roedd yn brysur yng ngweithgareddau'r pentref, ac yn llawn croeso bob amser ar ei haelwyd. Roedd yn wraig annwyl a chymdogol, a hwyliog iawn. Cydymdeimlwn â'i phlant, Mair, Emyr a Rhiannon a'u teuluoedd hwythau yn eu colled.

# Angladd

Bu farw Mr William Allsup, 9 Stryd Ceunant, Llanberis ddydd Mercher, Awst 19, yn Ysbyty Gwynedd, yn 92 mlwydd oed. Cynhaliwyd ei angladd yn Capel Coch ac ym Mynwent Llanbeblig, Caernarfon, ddydd Mercher, Awst 26 dan arweiniad y Gweinidog. Dr William Munro oedd yr organydd.
Un o Gaernarfon oedd Mr Allsup, ond roedd wedi byw a gweithio yn Llanberis ers iddo briodi. Gwasanaethodd bobl y pentref fel cigydd o'r pumdegau cynnar hyd ei ymddeoliad yn 1987. Roedd yn wr hawddgar a melys ei sgwrs bob amser, a thriw iawn i'w deulu cyfan. Cydymdeimlwn â'i briod, Mrs Clara Allsup, a'u tri mab, Selwyn, Garvin a Merfyn a'u teuluoedd, yn eu colled.

# Cydymdeimlo

Cydymdeimlwn hefyd â Mr Goronwy Lewis, 13 Stryd Ceunant, Llanberis yn y brofedigaeth fawr o golli ei briod, Heulwen, wedi cyfnod hir o waeledd a wynebodd yn ddewr a distaw. Boed nerth a chysur Duw gydag ef a'r teulu yn eu galar. Cynhaliwyd ei hangladd yn Eglwys Sant Padarn fore Mercher, Medi 2.

# Cydymdeimlo

Cydymdeimlwn hefyd â Mrs Lowri Prys Roberts, Brynrefail yn ei phrofedigaeth o golli ei phriod, Mr Norman Williams ddydd Mercher diwethaf. Roedd yn aelod ffyddlon yn eglwys Brynrefail. Cynhelir ei angladd yn Capel Coch brynhawn yfory, Medi 7, am 1.30 o'r gloch.

# Llongyfarchiadau

Llongyfarchiadau i'r bobl ifanc am eu llwyddiant yn eu harholiadau yn yr ysgol a'r colegau yr haf yma. Dymuniadau gorau i'r plant a'r bobl ifanc a fydd yn symud i'r ysgol uwchradd neu'n cychwyn eu gyrfa mewn coleg neu waith newydd.

Llongyfarchiadau hefyd i aelodau Band Deiniolen ac i Lyndsey Vaughan Pleming, Deiniolen, ar eu llwyddiant yn yr Eisteddfod Genedlaethol yn Y Bala. A llongyfarchiadau hefyd i Dei Tom[illegible] Nant Peris a gafodd ei dderbyn yn ael[illegible] o'r Orsedd yn ystod wythnos y[illegible] Eisteddfod.

# Ysgol Sul Llanberis

Cynhelir Pwyllgor ar gyfer athrawon Ysgol Sul Llanberis am 11.15 o'r gloch heddiw, ddydd Sul, medi 6. **Bydd yr Ysgol Sul yn ail ddechrau am 11.15 o'r gloch y Sul nesaf, Medi 13.**

# Ysgol Sul Deiniolen

Mae angen rhagor o bobl i helpu yn yr Ysgol Sul yn Neiniolen fel y gallwn drefnu ar gyfer y tymor nesaf yma. Os oes unrhyw un ohonoch yn barod i helpu, a wnewch chi roi gwybod i'r Gweinidog mor fuan â phosibl os gwelwch yn dda. Gobeithio cawn ni ddigon o bobl i'n helpu fel y gallwn rannu'r gwaith rhyngom. Cynhelir pwyllgor nos Iau, Medi 10, am 7.30 o'r gloch.

# Pwyllgor Adeiladau

Cynhelir Pwyllgor Adeiladau Capel Coch a Nant Padarn yn Capel Coch am 7.00 o'r gloch, nos Fercher, Medi 9.

# Cefnywaun

## Rhodd Cymorth

Mae eglwys Cefnywaun yn bwriadu gweithredu Cynllun Rhodd Cymorth. Dyma'r cynllun sy'n caniatau i'r eglwysi hawlio ad-dalid oddi wrth Gyllid y Wlad ar gyfer y cyfraniadau ariannol a wna'r aelodau. Yr unig amod yw eich bod yn talu treth icwm yn y lle cyntaf.

Does dim angen i'r aelod wneud dim ond llenwi un ffurflen sy'n nodi ei fod